Huw Irranca-Davies AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros
Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Amodau Ffytoiechydol (Diwygio) 2024** |
| **DYDDIAD** | **10 Mai 2024** |
| **GAN** | **Huw Irranca-Davies, Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig.** |

Bydd Aelodau'r Senedd yn dymuno cael gwybod ein bod yn rhoi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol i arfer pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru.

Gofynnodd yr Arglwydd Douglas-Miller, y Gweinidog dros Fioddiogelwch, Iechyd a Lles Anifeiliaid yn Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) am gytundeb i wneud Offeryn Statudol (OS) o'r enw Rheoliadau Amodau Ffytoiechydol (Diwygio) 2024.

Bydd yr OS uchod yn cael ei wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol drwy arfer y pwerau a roddir o dan Reoliad (UE) 2016/2031 ("y Rheoliadau Iechyd Planhigion").

Mae'r Rheoliadau'n diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/2072, y Rheoliadau Amodau Ffytoiechydol, at sawl diben. Yn bennaf, mae'r diwygiadau yn dadreoleiddio ac yn cynnwys plâu amrywiol ar y rhestrau Plâu Cwarantin a Phlâu Cwarantin Dros Dro. Mae'r Rheoliadau hefyd yn newid statws rheoliadol rhai plâu yn dilyn adolygiad technegol o'r risg maent yn ei pheri i fioddiogelwch Prydain Fawr ar hyn o bryd, ac yn darparu gofyniad mewnforio penodol ar gyfer cyflwyno coed Nadolig sbriws, na fwriedir iddynt gael eu rhoi ar y farchnad, o Norwy i'w harddangos am gyfnod byr unig.

Cafodd yr OS ei osod gerbron Senedd y DU ar 9 Mai 2024. Bydd mesurau brys yn y Rheoliadau'n dod i rym ar 31 Mai 2024 a bydd mesurau nad ydynt yn rhai brys yn dod i rym ar 9 Tachwedd 2024.

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Bydd yr Aelodau yn dymuno nodi nad yw'r Rheoliadau'n trosglwyddo unrhyw swyddogaethau i'r Ysgrifennydd Gwladol.

**Diben y diwygiadau**

Diben y diwygiadau yw diweddaru agweddau ar y Rheoliadau Amodau Ffytoiechydol (PCR) i gyflwyno'r newidiadau canlynol:

- Cyflwyno mesurau rhag cyflwyno planhigion, pren a sglodion pren sy'n cynnal y plâu *Chrysobothris femorata* a *C. mali* o UDA a Canada i atal y plâu rhag cael eu cyflwyno i Brydain Fawr.
- Rheoli hadau *Solanum sisymbriifolium* ("Codwarth-yr-ychen coch") ar sail y ffaith ei fod yn cynnal firoid y gloronen bigfain, pla nad yw'n bla cwarantin, ar ôl canfod yn ddiweddar ei fod yn cynnal y pla hwn.
- Bob blwyddyn mae nifer fach o goed Nadolig Norwyaidd, sydd ag arwyddocâd diwylliannol, yn cael eu rhoi i Lywodraeth y DU gan Lywodraeth Norwy a'i rhanbarthau. Bydd y rheoliadau'n darparu gofyniad mewnforio penodol ar gyfer cyflwyno'r coed Nadolig sbriws hyn, na fwriedir eu rhoi ar y farchnad, o Norwy i'w harddangos am gyfnod byr yn unig.
- Newid statws rheoleiddio rhai plâu yn dilyn adolygiad technegol o'r risg maent yn ei pheri i fioddiogelwch Prydain Fawr ar hyn o bryd.
- Cywiro rhai gwallau a nodwyd yn y Rheoliadau Amodau Ffytoiechydol

Mae'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n rhoi'r manylion am darddiad, diben ac effaith y diwygiadau, ar gael yma:

Rheoliadau Amodau Ffytoiechydol (Diwygio) 2024 (legislation.gov.uk)

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud yr offeryn hwn mewn perthynas â Chymru, ac ar ei rhan, gan fod yr OS yn ymwneud â maes datganoledig, ond, mae'r OS yn gweithredu ar draws Prydain Fawr ac yn cael effaith ar y cyfyngiadau ar fewnforio planhigion a chynhyrchion planhigion i Brydain Fawr. Gallai cyflwyno rheoliadau ar wahân yng Nghymru a Lloegr greu baich ychwanegol ar yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA), ac ar fusnesau, masnachwyr a thyfwyr. Mae rheoleiddio ar lefel Prydain Fawr yn sicrhau bod y llyfr statud yn gydlynol ac yn gyson, a bod y rheoliadau ar gael mewn un offeryn heb unrhyw risg o wahaniaethau yn neddfwriaeth Prydain Fawr.